Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Ugain Mlynedd Twenty Years

# Cynllun cydraddoldeb

## Beth fyddwn ni’n ei wneud i drin pobl yn gyfartal ac yn deg



Gorffennaf 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ein Cynllun Cydraddoldeb drafft 2026-2029**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Gall geiriau mewn **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth maen nhw'n ei olygu ar **dudalen 34**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.

**Gwefan:** ombwdsmon.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cynnwys

**Amdanom ni** .......... **4**

**Am y cynllun yma** .......... **13**

**Ein hamcanion cydraddoldeb** .......... **15**

1. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod amdanom ni a'n gwasanaethau .......... 15

2. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio ein gwasanaeth yn hawdd .......... 20

3. Helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn cefnogi pobl sydd mewn perygl a grwpiau sy'n aml yn cael eu gadael allan .......... 25

4. Gwneud yn siŵr bod gennym ni staff amrywiol .......... 28

5. Cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithle .......... 30

**Sut fyddwn ni'n edrych dros ein gwaith** .......... **33**

**Geiriau anodd** .......... **34**

# Amdanom ni

Ni ydy swyddfa **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.


Mae gennym ni 3 prif swydd:



- Rydyn ni'n edrych ar gwynion am wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn meddwl gwasanaethau mae'r llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Fel cynghorau lleol, gwasanaethau iechyd a thai cymdeithasol.



- Rydyn ni'n edrych ar gwynion am gynghorwyr lleol. Mae cynghorwyr lleol yn bobl sydd wedi cael eu dewis i redeg cyngor.



- Rydyn ni'n ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.




Rhaid i ni ddilyn deddfau sy'n ymwneud â **chydraddoldeb**.



Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi **amrywiaeth** a **chynhwysiant**.



Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol leoedd, ac mae ganddyn nhw wahanol gredoau, anghenion a syniadau.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl ein bod ni'n cynnwys pawb. Dydyn ni ddim yn gadael unrhyw un allan. Pwy bynnag ydyn nhw a beth bynnag ydy eu cefndir.

# Y gyfraith




Rydyn ni'n gweithio gyda deddf o'r enw **Dedd Cydraddoldeb 2010**.



Mae'r ddeddf yma yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal, yn deg ac yn dda.



Mae'n cydnabod bod llawer o bobl yn aml yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau. Mae eisiau amddiffyn y bobl yma rhag cael eu trin yn annheg.

Mae'r rhesymau yn cael eu galw yn **nodweddion gwarchodedig**. Mae'n cynnwys pethau fel:



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich bod yn anabl.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich hil, eich credoau neu ddiwylliant.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich rhyw, rhywedd neu pwy rydych chi'n ei garu.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich bod chi'n feichiog neu yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am fabi.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich oedran.



Rhaid i ni gael cynlluniau a nodau am **gydraddoldeb**. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y ddeddf yma.



Mae angen i ni gasglu gwybodaeth am **gydraddoldeb**.



Mae angen i ni hefyd edrych ar wahaniaethau mewn cyflog. Er enghraifft, ydy dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal ac yn deg.

# Cyfleoedd Bywyd



Rydyn ni hefyd yn edrych ar sut mae pobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd gwahanol gyfleoedd bywyd.



Er enghraifft, efallai bydd rhai pobl yn cael llai o gyfleoedd bywyd pan:

- Does ganddyn nhw ddim llawer o arian.



- Mae ganddyn nhw dai gwael.
- Does ganddyn nhw ddim swydd.
- Does ganddyn nhw ddim llawer o addysg.



Rydyn ni'n meddwl am sut mae materion fel hyn yn gallu effeithio ar bobl pan fyddwn ni'n gwneud ein gwaith.

## Cymraeg





Rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr ein bod ni'n trin y Gymraeg o leiaf yr un mor deg â'r iaith Saesneg. Mae hyn ym mhob maes o'n gwaith.

## Sut rydyn ni'n casglu gwybodaeth a'i chyhoeddi



Er mwyn gwneud Cynllun Cydraddoldeb mae angen i ni edrych ar lawer o wybodaeth.




Rydyn ni'n gwneud arolygon gyda'r cyhoedd. Rydyn ni'n ceisio darganfod os ydy pobl yn gwybod pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud.




Mae hyn yn ein helpu i ddysgu pa grwpiau o bobl sydd wedi clywed amdanom ni.



Rydyn ni hefyd yn gofyn am wybodaeth **cydraddoldeb** gan bobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau.



Rydyn ni’n cynnal arolygon **cydraddoldeb** gyda’n staff. A phobl sy’n gwneud cais i weithio i ni.




Rydyn ni’n defnyddio’r wybodaeth yma i wneud **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**.



Mae gennym ni hefyd wiriadau ar waith i wneud yn siŵr ein bod bob amser yn meddwl sut fydd ein gwaith yn effeithio ar wahanol grwpiau.



Rydyn ni’n galw’r rhain yn Asesiadau Effaith y Gymraeg a Chydraddoldeb. Rydyn ni’n cyhoeddi canlyniadau’r rhain yn ein hadroddiad.

# Bwlch cyflog rhwng y rhywiau



Mae hyn am y gwahaniaethau rhwng faint mae dynion a menywod yn ei ennill.




Rydyn ni nawr yn talu pobl yn llawer mwy cyfartal na phan wnaethon ni ein cynllun diwethaf.



Yn y cynllun diwethaf roedd dynion yn ennill mwy o arian na menywod yn gyffredinol.

# Am y cynllun yma




Dyma ein **Cynllun Cydraddoldeb** newydd. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2026 a 2029.




Dim hwn ydy'r cynllun terfynol. Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl.



Darllenwch ef ac yna atebwch ein harolwg Hawdd ei Ddeall.



Mae'r cynllun yma am beth fyddwn ni'n ei wneud i gefnogi:

- **cydraddoldeb**,
- **amrywiaeth**,
- a **chynhwysiant**.




Mae’n bwysig ein bod ni’n cynrychioli’r bobl rydyn ni’n eu cefnogi.



Pan fydd gennym ni staff **amrywiol**, mae gennym ni fwy o sgiliau a syniadau.




Rydyn ni am barhau i adeiladu ar y gwaith rydyn ni wedi ei wneud yn ein **cynllun Cydraddoldeb** diwethaf.




I’n helpu gyda hyn rydyn ni wedi gosod 5 nod mawr. Rydyn ni’n eu galw’n **Amcanion Cydraddoldeb**.

# Ein hamcanion cydraddoldeb



Dyma ein 5 nod mawr i'w cefnogi:

- **cydraddoldeb**,
- **amrywiaeth**,
- a **chynhwysiant**.


## 1. Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn gwybod amdanom ni a'n gwasanaethau



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod mwy o grwpiau o bobl yn gwybod sut rydyn ni'n gallu eu helpu.



Pobl ifanc, pobl hŷn, pobl o gefndiroedd **amrywiol** ac eraill.



Mae mwy o bobl yn gwybod amdanom ni nag roedden nhw 3 blynedd yn ôl.



Rydyn ni'n hapus bod mwy o bobl o grwpiau **amrywiol** yn gwybod amdanom ni.



Efallai nad ydy rhai pobl yn gwybod am ein gwasanaethau. Rydyn ni eisiau newid hyn. Er enghraifft:



- Pobl iau



- Neu bobl sydd yn:
  - Ennill llai o arian
  - Byw mewn tai gwael
  - Heb gael gwaith â thâl
  - Heb lawer o addysg



Mae’r pethau yma yn gallu cael llawer o effeithiau ar fywyd person.




Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio ein gwasanaethau. Ond rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eu bod nhw’n gwybod eu bod nhw’n gallu siarad â ni yn Gymraeg.




Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cwyno wrthyn ni ar-lein. Ond rydyn ni hefyd yn gallu derbyn cwynion dros y ffôn. Fe wnaeth mwy o bobl gwyno dros y ffôn y llynedd.



Rydyn ni hefyd yn gallu cefnogi pobl sy’n defnyddio Hawdd ei Ddeall a gwybodaeth sain a fideo.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella

Fe fyddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod eu bod nhw'n gallu cwyno am wasanaethau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth rydyn ni'n ei wneud.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod eu bod nhw'n gallu cwyno yn Gymraeg.




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod eu bod nhw'n gallu ein ffonio i wneud cwyn. Nid dim ond mynd ar-lein.



- Fe fyddwn ni’n gwneud mwy o waith wyneb yn wyneb gyda chymunedau.



- Fe fyddwn ni’n cyrraedd mwy o bobl trwy sefydliadau.



- Fe fyddwn ni’n hysbysebu mewn llefydd fel canolfannau cymunedol.

## 2. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio ein gwasanaeth yn hawdd



Rydyn ni eisiau iddi fod yn hawdd i bobl ddefnyddio ein gwasanaeth.



Mae hyn yn cynnwys ein gwybodaeth, ein gwefan a sut maen nhw’n cysylltu â ni.



Mae’r rhan fwyaf o bobl sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth yn dweud ei bod yn hawdd cysylltu â ni.



Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â ni trwy ein ffurflen ar-lein.



Ond mae pobl hŷn, pobl anabl neu bobl â llai o addysg yn fwy tebygol o gwyno drwy'r post a'r ffôn.




Rydyn ni wedi gwneud ein gwefan yn haws i'w defnyddio.



Mae hyn yn cynnwys gwiriwr cwynion ar-lein. Mae hyn yn arwain pobl trwy gwynion.



Mae gennym ni lawer mwy o wybodaeth yn Hawdd ei Ddeall. Mae gennym ni hefyd fwy o wybodaeth sain a fideo.





Mae popeth rydyn ni yn ei wneud ar gael yn Gymraeg.



Mae pawb yn cael cynnig cefnogaeth pan fyddan nhw yn cysylltu â ni.




Er enghraifft, rydyn ni’n trefnu cyfieithiadau i ieithoedd eraill.



Mae’r rhan fwyaf o bobl yn dweud ein bod yn ateb eu hanghenion.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella



Rydyn ni eisiau i fwy o bobl fod yn hapus gyda ffonio ni.




Rydyn ni hefyd eisiau gwneud ein gwefan yn haws i'w defnyddio.

**Rhai o'r pethau fyddwn ni'n eu gwneud ydy:**




- Gwneud gwell gwiriadau o'n gwefan a'n ffurflen ar-lein.



- Gwneud mwy o wybodaeth sain a fideo.




- Edrych I weld bod yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio yn glir. Yn Saesneg ac yn Gymraeg.



- Gwneud ein gwasanaeth ffôn hyd yn oed yn well.



- Siarad â phobl sydd ddim wedi bod yn hapus. Dysgu o beth maen nhw'n ei ddweud.

## 3. Helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn cefnogi pobl sydd mewn perygl a grwpiau sy’n aml yn cael eu gadael allan



Rydyn ni’n gallu edrych ar faterion hyd yn oed os nad ydyn ni wedi cael cwyn.




Er enghraifft, materion sydd yn gallu effeithio ar grŵp cyfan o bobl.



Rydyn ni eisiau defnyddio’r pwerau yma mewn ffordd sydd bob amser yn cefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o gael eu trin yn wael.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau i wella sut maen nhw’n delio â chwynion.



Rydyn ni wedi cefnogi gwasanaethau i gasglu mwy o wybodaeth am sut maen nhw'n delio â chwynion.



Rydyn ni am wneud yn siŵr ei bod yn hawdd i bobl wneud cwynion i ddarparwyr gwasanaeth.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella



- Fe fyddwn ni'n parhau i edrych ar faterion rydyn ni'n meddwl sy'n effeithio ar grwpiau mewn perygl.



- Fe fyddwn ni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n gwybod pa broblemau mae pobl yn eu hwynebu.



- Fe fyddwn ni'n parhau i helpu gwasanaethau i wella'r wybodaeth maen nhw'n ei chasglu am bobl sy'n cwyno.




- Rydyn ni'n gwneud **Canllawiau Cwynion Cyfeillgar i Blant**. Rydyn ni'n gwneud hyn gyda Chomisiynydd Plant Cymru.

## 4. Gwneud yn siŵr bod gennym ni staff amrywiol



Rydyn ni eisiau cael staff o wahanol gefndiroedd. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ei bod bob amser yn hawdd gwneud cais i weithio i ni.



Rydyn ni eisiau i'n staff gynrychioli gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft:

- Pobl dan 25 oed.

- Cefndiroedd ethnig gwahanol. Er enghraifft, cefndiroedd Du ac Asiaidd.



- Crefyddau gwahanol.

- Pobl **draws**. Mae hyn yn meddwl nad ydy eu rhyw yr un fath â'r rhyw yr oedden nhw'n gredu oedden nhw pan gawson nhw eu geni. Er enghraifft, rhywun wedi ei eni yn fenyw sy'n dod yn ddyn.



- Pobl anabl.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella



- Fe fyddwn ni'n parhau i edrych ar sut rydyn ni'n recriwtio pobl ac yn gwella hyn os oes angen.



- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys pobl sy'n **niwrowahanol**.




Mae **niwrowahanol** yn meddwl pobl sydd â gwahaniaethau mawr yn y ffordd maen nhw'n meddwl ac yn cyfathrebu. Rydyn ni eisiau cefnogi pawb a newid i ateb eu hanghenion.

- Fe fyddwn ni'n edrych ar ymuno â'r **Cynllun Hyderus o ran Anabledd**. Dyma gynllun mae sefydliadau yn gallu cofrestru iddo. Mae'n dangos eu bod nhw'n cefnogi staff anabl yn dda.

## 5. Cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithle



Rydyn ni eisiau i staff deimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u trin yn deg.




Rydyn ni eisiau defnyddio'r Gymraeg yn fwy yn ein sefydliad.



Mae llawer o staff yn dweud bod ganddyn nhw fynediad cyfartal at ddatblygiad a chefnogaeth.



Mae gan bob aelod o staff Gynllun Datblygu Unigol. Mae'r rhain yn cael eu gwirio mewn cyfarfodydd un-i-un.



Mae pob aelod o staff newydd yn cael hyfforddiant am **gydraddoldeb** a'n dyletswyddau Cymraeg.



Rydyn ni'n aml yn siarad â staff am **gydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant**. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant.




Mae gan lawer o'n staff sgiliau Cymraeg.




Mae gennym ni wasanaethau staff yn Gymraeg a chynlluniau I ddefnyddio'r Gymraeg.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella




- Fe fyddwn ni'n parhau i gefnogi staff sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.



- Fe fydd rheolwyr yn cael mwy o hyfforddiant ar sut i gefnogi staff.




- Fe fyddwn ni'n annog staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ein sefydliad.

# Sut fyddwn ni'n edrych dros ein gwaith



Mae ein **Tîm Rheoli** yn gyfrifol am edrych I weld ein bod yn cyflawni ein nodau mawr.



Mae gennym ni hefyd **Banel Cynghori**. Maen nhw'n edrych I weld pa mor dda rydyn ni'n cyflawni ein nodau.



Mae ein **Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol** yn edrych I weld ein bod ni'n dilyn deddfau yn iawn.



Mae gwirio ac adrodd o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan y **Pennaeth Polisi ac Ymgysylltu**.



Fe fydd rhai o'n staff yn gyfrifol am rywfaint o waith o dan y Cynllun yma. Fe fydd eu gwaith yn cael ei edrych arno yn eu timau.

# Geiriau anodd

## Amrywiaeth

Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae pobl yn dod o wahanol leoedd, mae ganddyn nhw gredoau, anghenion a syniadau gwahanol.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.

## Cynhwysiant

Mae hyn yn meddwl ein bod ni'n cynnwys pawb. Dydyn ni ddim yn gadael unrhyw un yn y gymdeithas allan. Pwy bynnag ydyn nhw a beth bynnag ydy eu cefndir.

## Niwrowahanol

Mae niwrowahanol yn meddwl pobl sydd â gwahaniaethau mawr yn y ffordd maen nhw'n meddwl ac yn cyfathrebu. Rydyn ni eisiau cefnogi pawb a newid i ateb eu hanghenion.

## Traws

Mae hyn yn meddwl nad ydy eu rhyw yr un fath â'r rhyw yr oedden nhw'n gredu oedden nhw pan gawson nhw eu geni. Er enghraifft, rhywun wedi ei eni yn fenyw sy'n dod yn ddyn.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247